# GWERFUL MECHAIN (1462? - 1500), bardd

**Enw:** Gwerful Mechain
**Dyddiad geni:** 1462?
**Dyddiad marw:** 1500
**Rhiant:** Hywel Fychan
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Leslie Harries

Y cwbl a wyddys amdani yw mai merch Hywel Fychan o Fechain ym Mhowys oedd hi, ac ategir hynny yng nghywydd Dafydd Llwyd yn danfon Llywelyn ap y Gutun yn llatai ati. Gwyddys fod darnau o'i chywyddau yn nofio ar gof gwlad yn y 19eg ganrif, oblegid cyfeiria ' Ap Vychan ' a Syr Owen M. Edwards at hynny. Cymysgir rhyngddi â Gwerful, ferch Madog o Fro Danad, yn *Eminent Welshmen* ac *Enwogion Cymru*; nid i Werful Mechain y farddes y canodd Guto'r Glyn. Pa fodd bynnag, ni wyddys ond y nesaf peth i ddim amdani. Un yn canu yn ôl ffansi'r foment oedd Gwerful Mechain; canodd gywydd gwych i'r Iesu yn ei ddioddefaint; lluniodd ambell englyn trawiadol, cynhyrfodd wrth wragedd eiddigus a beirdd gwawdlyd cyffelyb, fel Ieuan Dyfi, Llywelyn ap Gutun, a hynny'n finiog-fras hefyd.

## Awdur

**Leslie Harries**, (1901 - 1988)

## Ffynonellau


Leslie Harris, 'Barddoniaeth Huw Cae Llwyd' (traethawd anghyhoeddedig, 1933, yn Ll.G.C.)


## Darllen Pellach


Katie Gramich (gol.), *The works of Gwerful Mechain* (Broadview Press 2018)

Lauren Cocking, On the Gleefully Indecent Poems of a Medieval Welsh Feminist Poet, Literary Hub, (cyrchwyd Awst 2019)

Erthygl Wicipedia: Gwerful Mechain


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5623555


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu